Rhif cwmni / company number: 14227941

**Cyfarfod Bwrdd | Board meeting**
**16/07/25 – Teams**
**14:00-17:00**

**Cofnodion a chamau gweithredu | Minutes and actions**

**Yn bresennol | In attendance:**

**Adnodd:** Gethin Davies, Cadeirydd | Chair (GD); Mair Gwynant, Cadeirydd ARAC Chair (MG); Natalie Jones (NJ); Huw Jones (HJ); Sioned Roberts (SR)
Emyr George, Prif Weithredwr | Chief Executive (EG); Kirsty Davies, Cyfarwyddwr Gwasanethau Corfforaethol | Director of Corporate Services (KD); Lleucu Siencyn, Cyfarwyddwr Strategaeth a Chyflawni | Director of Strategy and Delivery (LlS); Branwen Edwards (BE); Katy Barfoot (KB)
**Partneriaid | Partners:** Tahayra Ayub-buhllar, Tîm Partneriaeth, Llywodraeth Cymru | Partnership Team, Welsh Government

| **Eitem ar yr agenda** ***Agenda item*** | **Crynodeb o'r drafodaeth a'r pwyntiau gweithredu** | **Summary of discussion and action points** |
|---|---|---|
| 1.Croeso ac ymddiheuriadau Welcome and apologies | Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.<br><br>Roedd Nicola Wood wedi anfon ei hymddiheuriadau. | The Chair welcomed all attendees to the meeting.<br><br>Apologies were noted from Nicola Wood. |
| 2. Datgan buddiannau Declaration of interests | Nid oedd unrhyw wrthdaro buddiannau wedi'i ddatgan cyn y cyfarfod.<br><br>Dywedodd un aelod ei bod yn Gadeirydd Bwrdd Comisiynydd y Gymraeg a'i bod wedi'i phenodi'n ddiweddar ar Bwyllgor Archwilio a Risg y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. | No conflict of interests had been declared in advance of the meeting.<br><br>One member noted her role as Chair of the Board of Welsh Language Commissioner and her recent appointment to the Audit and Risk Committee, Coleg Cymraeg Cenedlaethol. |

| | | |
|---|---|---|
| 3. Cofnodion y cyfarfod diwethaf<br>Minutes of previous meeting | Cytunodd y Bwrdd fod y cofnodion yn gofnod cywir a gwir o'r trafodaethau. | The Board agreed that the minutes were a true and accurate record of discussions. |
| 4. Diweddariad gan y Cadeirydd<br>Update from the Chair | Dywedodd GD ei fod yn llongyfarch tîm Adnodd yn dilyn lansiad llwyddiannus y Strategaeth. Soniwyd am bwysigrwydd presenoldeb y Prif Weinidog a'r ymwneud fu â hi yn ystod y digwyddiad lansio yn Eisteddfod yr Urdd.<br><br>Nodwyd bod cylch rheoli perfformiad holl aelodau'r Bwrdd wedi'i gwblhau.<br><br>Cyfeiriodd GD at bwyntiau allweddol a godwyd yn ystod y cyfarfodydd adolygu â'r aelodau:<br>• Cyfarfodydd wyneb yn wyneb rheolaidd<br>• Cylchlythyron rhwng cyfarfodydd<br>• Adborth ac awgrymiadau'n dilyn hyfforddiant | GD congratulated the Adnodd team on the successful launch of the Strategy and noted the importance of the First Minister's attendance and engagement during the launch event at the Eisteddfod yr Urdd.<br><br>It was noted that the performance management cycle had been completed for all Board members.<br><br>GD noted key points raised during the review meetings with members:<br>• Regular face-to-face meetings<br>• Inter-meeting newsletters<br>• Training feedback and suggestions |
| 5. Diweddariad gan Gadeirydd ARAC<br><br>Update by Chair of ARAC | Dywedodd MG fod y Pwyllgor wedi cwrdd ddwywaith ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd – unwaith i drafod polisïau adnoddau dynol ac unwaith pan gynhaliwyd cyfarfod arferol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC). | MG noted that the Committee had met twice since the previous Board meeting – once to discuss HR policies and once as an ordinary meeting of ARAC.<br><br>ARAC had agreed that the minutes of the previous meeting would be circulated as an appendix to the ARAC Chair update at each Board meeting. |

| | | |
|---|---|---|
| | Roedd ARAC wedi cytuno y byddai cofnodion y cyfarfod blaenorol yn cael eu cylchredeg fel atodiad i ddiweddariad Cadeirydd ARAC ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd.<br><br>Dywedodd MG fod yr archwilwyr mewnol ac allanol yn bresennol yng nghyfarfod ARAC ar 25 Mehefin, ac roedd cyfle i aelodau'r Pwyllgor gael cyfarfod caeedig â'r archwilwyr mewnol, heb swyddogion yn bresennol.<br><br>Cytunwyd ar gylch gorchwyl ARAC ar gyfer 25/26 yn ystod y cyfarfod ar 25 Mehefin. Penodwyd Nicola Wood yn is-gadeirydd y Pwyllgor.<br><br>Dywedodd MG fod adroddiad blynyddol wedi'i gyflwyno i EG yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Cyfrifyddu, yn ogystal ag i GD, a hwnnw'n rhoi crynodeb o waith a phrosesau craffu ARAC yn ystod y flwyddyn. | MG noted that internal and external auditors had attended the ARAC meeting on 25 June, and Committee members had the opportunity to attend a closed meeting with the internal auditors, with no officers present.<br><br>ARAC Terms of Reference and programme of work for 25/26 were agreed during the meeting on 25 June. Nicola Wood was appointed as vice-chair of the Committee.<br><br>MG noted that an annual report had been presented to EG as Accounting Officer and GD providing an overview of ARAC's work and scrutiny during the year. |
| 6. Diweddariad y Prif Weithredwr<br><br>Chief Executive Update | Rhoddodd EG grynodeb o waith diweddar Adnodd gyda Llywodraeth Cymru:<br>• Gweithdy deuddydd gyda thîm Hwb, y tîm Partneriaeth a'r Tîm Cyfathrebu<br>• Mae cyfres o gyfarfodydd tymhorol gyda Dirprwy Gyfarwyddwyr y Gyfarwyddiaeth Addysg yn dal i | EG provided an overview of Adnodd's recent work with WG:<br>• Two-day workshop with the Hwb, Partnership and Communications teams<br>• A series of termly meetings with Deputy Directors across the Education Directorate are ongoing. |

| | | |
|---|---|---|
| | gael eu cynnal. Bydd y sgyrsiau hyn yn helpu i sicrhau bod gweithgarwch a chynlluniau Adnodd yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau polisïau addysg ac yn cyfrannu'n effeithiol at eu cyflawni. Bydd hyn yn digwydd drwy ddatblygu adnoddau holistig sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, a hynny mewn ffordd integredig a chydweithredol<br>• Bydd cyfarfod nesaf y Bwrdd Strategol Adnoddau Addysg yn cael ei gynnal ar 23 Mehefin, dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Addysg. Cytunwyd ar agenda â'r Tîm Partneriaethau er mwyn adolygu sut mae cyllideb ac amcanion Adnodd wedi'u gosod eleni, ac er mwyn cytuno ar y dull o osod cyllid a blaenoriaethau Adnodd y flwyddyn nesaf. Bydd rôl a gwaith Adnodd mewn perthynas â'r corff dysgu proffesiynol newydd hefyd yn cael ei drafod<br>• Dywedodd EG ei fod wedi cwrdd yn ddiweddar â Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Gweithlu, a fydd yn bennaeth ar Dîm Partneriaeth y corff dysgu proffesiynol newydd. Cytunwyd y dylid creu ffyrdd cyffredin o weithio wrth ymwneud ag ymarferwyr a'u galluogi i gymryd rhan<br>• Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi ymateb i'r llythyr a anfonwyd ati yn egluro prif bwyntiau'r Strategaeth. Bydd tîm gweithredol | These conversations will help ensure that Adnodd activity and plans are closely aligned with education policy priorities and contribute effectively to their delivery through integrated and collaborative development of holistic and user-centred resources<br>• Next meeting of ERSB will be held on 23 July, chaired by the Director of Education. An agenda has been agreed with the Partnership Team to review how Adnodd's budget and objectives have been set this year and to agree the approach for setting Adnodd's funding and priorities for next year. Adnodd's role and work in relation to the new professional learning body will also be discussed<br>• EG noted that he had recently met with the Deputy Director of the Workforce Division, who will head the Partnership Team for the new PL body, and agreed that common ways of working should be established in relation to engagement and enabling participation from practitioners<br>• The Cabinet Secretary for Education had responded to the letter sent to her setting out the main points of the Strategy. Adnodd's executive team will meet in person with the Cabinet Secretary in September |

| | | |
|---|---|---|
| | Adnodd yn cwrdd wyneb yn wyneb ag Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Medi<br><br>Gan gyfeirio at y llythyr gan Gomisiynydd y Gymraeg, dywedodd EG y bydd cyfarfod yn cael ei drefnu i drafod ymhellach rwymedigaethau Adnodd o dan safonau'r Gymraeg.<br><br>Gan ymateb i ymholiad gan aelod am rwymedigaethau Adnodd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, nododd EG y byddai'n anfon ymholiad at un o swyddogion Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol am hyn. | Referring to the letter from the Welsh language commissioner, EG noted that a meeting will be arranged to further discuss Adnodd's obligations under the Welsh language standards.<br><br>Responding to a member's query regarding Adnodd's obligations under the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, EG noted that this would be queried with the Future Generations Commissioner's office. |
| 7. Diweddariad y Cyfarwyddwr Strategaeth a Chyflawni: Comisiynu a Strategaeth<br><br>Director of Strategy and Delivery Update: Commissioning and Strategy | <u>Y Strategaeth</u><br>Dywedodd LIS fod y testun, ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd, wedi'i adolygu a'i ddiwygio i ymateb i sylwadau gan yr aelodau ac adborth gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Cymeradwyodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr fersiwn derfynol ym mis Mai.<br><br>Lansiwyd y Strategaeth ar stondin Llywodraeth Cymru yn Eisteddfod yr Urdd yng nghwmni'r Prif Weinidog, Eluned Morgan. Roedd ei haraith yn hynod gefnogol o waith Adnodd. | <u>Strategy</u><br>LIS reported that since the last Board meeting, the text was reviewed and amended to incorporate comments from members and feedback from Welsh Government officials. A final version was signed off by the Chair and CEO in May.<br><br>The Strategy was launched at the WG stand at the Urdd Eisteddfod in the company of First Minister Eluned Morgan, whose speech was extremely supportive of Adnodd's work. |

| | | |
|---|---|---|
| | Y cam nesaf yw cyhoeddi fersiwn i blant, wedi'i ysgrifennu gan Casia Wiliam, yr awdur plant sydd wedi ennill gwobrau am ei gwaith.<br><br><u>Diweddariad am waith comisiynu 2025-26</u><br>Mae'r llythyr ariannu blynyddol yn amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer comisiynu yn 2025-26.<br><br>Mae'r rowndiau comisiynu wedi'u rhannu o dan y prosesau canlynol:<br><br>**Y Gronfa Arloesi a Chydweithio**<br>Lansiwyd y Gronfa yn Eisteddfod yr Urdd i gyd-daro â lansiad y Strategaeth, a'i diben yw cefnogi a galluogi sefydliadau, cyflenwyr ac ymarferwyr addysgol i ddod ynghyd er mwyn trafod, cnoi cil a rhannu eu syniadau a'u profiadau â phobl eraill.<br><br>Daeth cyfanswm o 64 o geisiadau i law.<br><br>Cysylltwyd â nifer o sefydliadau partner a gweithwyr llawrydd sydd â phrofiad arbenigol a phrofiad bywyd er mwyn helpu gyda'r broses asesu. | The next step is to publish a children's version, written by award-winning children's writer Casia Wiliam.<br><br><u>Update on 2025-26 Commissioning</u><br>The annual funding letter outlines the commissioning priorities in 2025-26.<br><br>Commissioning rounds have been divided into the following processes:<br><br>**Innovation and Collaboration Fund**<br>Launched at the Urdd Eisteddfod to coincide with the Strategy launch, to support and enable educational practitioners, organisations, and suppliers to come together to explore, think and share their ideas and experiences with others.<br><br>A total of 64 applications were received.<br><br>A number of partner organisation and freelancers with specialist and lived experiences have been engaged to support the assessment process.<br><br>Following a thorough moderation session by the commissioning team, 10 projects were selected. |

| | | |
|---|---|---|
| | Ar ôl i'r tîm comisiynu gynnal sesiwn gymedroli drylwyr, dewiswyd 10 o brosiectau.<br><br>Yn ystod cyfarfod ddydd Llun 14 Gorffennaf, cyflwynodd Ali Hanbury y ceisiadau a ddewiswyd i'r tîm gweithredol, a gytunodd â'r penderfyniad. Cytunwyd y gellid cymryd y camau nesaf i roi gwybod i'r ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus.<br><br>**Dyfarniadau uniongyrchol**<br>Mae cyfanswm o £1,037,000 wedi'i roi: BookTrust (£770,000); Cyngor Llyfrau Cymru (£171,184); a'r RNIB (£120,987.95).<br><br>Bydd dau o'r dyfarniadau uniongyrchol a roddwyd yn y flwyddyn ariannol hon yn cael eu cario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r naill brosiect a'r llall yn ymateb i'r gofyniad a geir yn y llythyr cyllido i ddatblygu adnoddau Cymraeg i gefnogi dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.<br><br>Mae **grantiau** yn cael eu rhoi i Tanio (£40,000), Cyngor Llyfrau Cymru (£46,000 – Stori Sydyn) a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (£150,000) | During a meeting on Monday 14 July, the selected applications were presented to the executive team by Ali Hanbury, who agreed with the decision. It was approved that the next steps could be taken to inform the successful and unsuccessful applicants.<br><br>**Direct Awards**<br>A total of £1,037,000 have been issued to: BookTrust (£770,000), Books Council of Wales (£171,184), and RNIB (£120,987.95).<br><br>Two of the direct awards issued in this financial year will carry over to the next financial year. Both projects are in response to the requirement outlined in the funding letter to develop Welsh language resources to support learners with additional learning needs.<br><br>**Grants** are being awarded to Tanio (£40,000), Books Council of Wales (£46,000 – Quick Reads) and Coleg Cymraeg Cenedlaethol (£150,000)<br><br>A further £700,000 has been committed to the continuation of projects awarded in 24/25, which include novated grants, direct awards and request for proposals.<br><br>**Additional funding** |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae £700,000 yn rhagor wedi'i ymrwymo i barhau â phrosiectau y dyfarnwyd cyllid iddyn nhw yn 24/25, sy'n cynnwys grantiau newyddu, dyfarniadau uniongyrchol a cheisiadau am gynigion.<br><br>**Cyllid ychwanegol**<br>Mae achos busnes wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i helpu i ddarparu adnoddau ar gyfer Ton 2 y cymwysterau TGAU. Disgwylir y bydd y cyllid angenrheidiol (£545,404.00) yn cael ei ddosrannu dros ddwy flwyddyn ariannol.<br><br>Dywedodd GD fod adnoddau Ton 1 y cymwysterau TGAU bellach ar gael ar wefan CBAC.<br><br>**Ceisiadau am gynigion**<br>Bydd y ffenestr ymgeisio yn agor ym mis Medi ac yn rhoi sylw i'r canlynol: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg; Iechyd a Lles; a Mathemateg.<br><br>Mae Adnodd yn gweithio'n agos gyda'r Grŵp Gweithredol i sicrhau bod y gwaith hwn yn rhoi sylw i amcanion ein llythyr ariannu. Bydd rhagor o fanylion yn cael eu rhannu â'r Bwrdd ym mis Hydref. | A business case has been submitted to Welsh Government to support the provision of Wave 2 GCSE resources. It is anticipated that the distribution of required funding (£545,404.00) will fall across two financial years.<br><br>GD noted that resources for Wave 1 GCSE, commissioning are now available on WJEC website.<br><br>**Requests for proposals**<br>The application window will open in September and will cover: Religion, Values and Ethics (RVE); Health and Well-being; and Mathematics.<br><br>Adnodd are working closely with the Operational Group to ensure that this work covers the objectives of our funding letter. Further details will be shared with the Board in October.<br><br>**Welsh History**<br>Adnodd is continuing to work with Welsh Government, stakeholders, and expert group to take forward the plans for Welsh History.<br><br>The next steps include convening a stakeholder forum with key national bodies. The first meeting will take place on 17 July 2025. |

| | | |
|---|---|---|
| | **Hanes Cymru**<br>Mae Adnodd yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid, a grŵp arbenigol i fwrw ymlaen â'r cynlluniau ar gyfer Hanes Cymru.<br><br>Mae'r camau nesaf yn cynnwys cynnull fforwm lle bydd cyrff cenedlaethol allweddol yn dod ynghyd. Bydd y cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal ar 17 Gorffennaf 2025.<br><br>**Materion eraill**<br>Mae trafodaethau wedi cael eu cynnal â chyflenwyr ynghylch creu adnoddau i gyd-fynd â'r Wythnos Gwrth-fwlio, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, ac addysg drochi hwyr.<br><br>Dywedodd LIS y bydd cynllun Cyfeillion Adnodd yn cael ei hyrwyddo dros yr haf. Cymuned o bobl fydd hon sydd â phrofiad ac arbenigedd sy'n berthnasol i ethos y Cwricwlwm i Gymru, a byddan nhw'n helpu gyda'r gwaith o gomisiynu adnoddau addysgol cynhwysol o ansawdd da drwy gynnal adolygiadau a chydweithio.<br><br>Soniodd MG am bwysigrwydd sicrhau tryloywder ac awgrymodd y dylid sefydlu fframwaith ar gyfer cyflenwyr, i fonitro'r gofynion wrth gaffael. | **Other**<br>Discussions had been held with suppliers regarding resources to support Anti-bullying week, Anti-Racist Wales Action Plan, and late immersion.<br><br>LIS noted that Cyfeillion Adnodd will be promoted over the summer. This will be a community of people with experience and expertise relevant to the ethos of the Curriculum for Wales, who will support the commissioning of inclusive, high-quality educational resources through review and collaboration.<br><br>MG noted the importance of ensuring transparency and suggested establishing a supplier framework to monitor the procurement obligations.<br><br>**Action: Query the procurement obligations in relation to Cyfeillion Adnodd with CBCC.** |

| | | |
|---|---|---|
| | **Cam gweithredu: Gwneud ymholiadau i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ynghylch y gofynion caffael mewn perthynas â chynllun Cyfeillion Adnodd.** | |
| 8. Diweddariad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>Director of Corporate Services update | Rhoddodd KD grynodeb o'r dangosfwrdd adnoddau dynol a oedd yn y papur, a hwnnw'n rhoi gwybodaeth am staff oedd wedi dechrau a gadael, salwch, cyfnodau prawf, a hyfforddiant a datblygu yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 1 Gorffennaf.<br><br>**Fforwm y staff**<br>Dywedodd KD fod DG wedi cynnal pleidlais gyfrinachol ynghylch cynrychioli'r staff. Dewis mwyafrif y staff oedd cael eu cynrychioli drwy fforwm staff mewnol.<br><br>Roedd Darwin Gray wedi paratoi cylch gorchwyl drafft, a hwnnw wedi'i rannu â'r tîm i gael sylwadau. Bydd yn cael ei gylchredeg ymhlith aelodau'r Bwrdd er gwybodaeth.<br><br>Ar ôl i'r tîm gytuno ar y cylch gorchwyl, y camau nesaf fydd gofyn am enwebiadau ar gyfer aelodau'r fforwm a threfnu'r cyfarfod cyntaf. Bydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal yn fisol i gychwyn, er mwyn sefydlu'r grŵp a | KD provided an overview of the HR dashboard included in the paper, covering starters, leavers, sickness, probation and training and development for the period 1 April to 1 July.<br><br>**Staff forum**<br>KD noted that DG had conducted a confidential vote regarding staff representation. The majority of staff opted to be represented by an internal staff forum.<br><br>A draft terms of reference document had been prepared by Darwin Gray which has been shared with the team for comment and will be circulated to the Board for information.<br><br>Once the terms of reference have been agreed with the team, nominations for forum members will be sought and the first meeting arranged. These meetings will initially be held monthly to establish the group and to discuss pay award during the summer, before moving to quarterly meetings. |

| | | |
|---|---|---|
| | thrafod y dyfarniad cyflog yn ystod yr haf, cyn y cynhelir cyfarfodydd bob chwarter wedyn.<br><br>**Polisïau adnoddau dynol**<br>Cafodd y dogfennau canlynol eu cymeradwyo gan ARAC yn ystod cyfarfod ar 16 Mehefin 2025:<br>• Bwlio ac Aflonyddu (polisi)<br>• Atal Aflonyddu Rhywiol (polisi, canllawiau ac asesiad risg)<br>• Galluogrwydd (polisi a gweithdrefn)<br>• Gwrth-dwyll (polisi a gweithdrefn)<br>• Recriwtio a Chyfnodau Prawf (polisi a gweithdrefn)<br>• Recriwtio (polisi a gweithdrefn)<br>• Cofrestr Cadw Cofnodion (canllawiau)<br>• Defnyddio Cerbydau Personol yn y Gwaith (polisi)<br>• Dysgu Proffesiynol (polisi a dull gweithio)<br><br>Roedd ARAC hefyd wedi trafod y polisi Dod â'ch Dyfeisiau eich Hun i'r Gwaith a'r polisi Defnydd Derbyniol o TGCh. Oherwydd goblygiadau'r polisïau hyn, teimlai'r Pwyllgor fod angen i'r Bwrdd eu trafod a'u cymeradwyo.<br><br>**Cam gweithredu: Sicrhau bod holl Aelodau'r Bwrdd yn cael dyfais gan Adnodd.** | **HR Policies**<br>The following documents were approved by ARAC during a meeting on 16 June 2025:<br>• Bullying and Harassment (policy)<br>• Prevention of Sexual harassment (policy, guidance and risk assessment)<br>• Capability (policy and procedure)<br>• Anti-Fraud (policy and procedure)<br>• Recruitment and Probation (policy and procedure)<br>• Recruitment (policy and guidance)<br>• Retention Schedule (guidance)<br>• Using Personal Vehicles at Work (policy)<br>• Professional Learning (policy and approach)<br><br>ARAC had also discussed the Bring your Device to Work policy and the ICT Acceptable Use policy. The Committee felt that, due to the implications of these policies, they needed to be discussed and approved by the Board.<br><br>**Action: Ensure that all Board members are issued with an Adnodd device.**<br><br>***Decision: The Bring your own device to work and ICT: acceptable use policies were approved by the Board.*** |

| | | |
|---|---|---|
| | ***Penderfyniad: Cymeradwyodd y Bwrdd y polisi Dod â'ch Dyfais eich Hun i'r Gwaith a'r polisi Defnydd Derbyniol o TGCh.***<br><br>**Cam gweithredu: Trefnu sesiwn hyfforddiant i'r Bwrdd ar gyfer defnyddio OneDrive, SharePoint a Teams, ynghyd â hyfforddiant blynyddol am ymwybyddiaeth o ddiogelwch gwybodaeth.**<br><br>**Y Polisi Cyllid**<br>Yn ystod y cyfarfod ar 25 Mehefin, adolygodd ARAC y diwygiad a awgrymwyd i'r Polisi Cyllid sy'n ymwneud â chynnwys datganiad polisi am asedau sefydlog, ac mae'n argymell y polisi diwygiedig i'r Bwrdd i'w gymeradwyo.<br><br>***Penderfyniad: Cymeradwyodd y Bwrdd y Polisi Cyllid diwygiedig.***<br><br>**Recriwtio**<br>Dywedodd KD fod yr ail don recriwtio wedi'i chwblhau'n llwyddiannus, yn dilyn proses gystadleuol, a bod Adnodd a'r holl ymgeiswyr wedi cytuno ar ddyddiadau dechrau.<br><br>**Penderfyniad ynghylch codiad cyflog i'r Prif Weithredwr** | **Action: Arrange Board training session on the use of OneDrive, SharePoint and Teams, and annual information security awareness training.**<br><br>**Finance Policy**<br>During the meeting on 25 June, ARAC reviewed the suggested amendment to the Finance Policy which relates to the inclusion of a fixed asset policy statement and recommends the amended policy to the Board for approval.<br><br>***Decision: The Board approved the amended Finance policy.***<br><br>**Recruitment**<br>KD noted that the second wave of recruitment had been successfully completed following a competitive process, and start dates for all positions have been agreed with all candidates.<br><br>**Chief Executive Pay Increase Decision**<br>A paper was circulated to Board members on 20 May requesting approval of a backdated 5% pay award (3.7% consolidated, 1.7% non-consolidated) for the Chief Executive, backdated to 1st April 2024, in line with |

| | | |
|---|---|---|
| | Cylchredwyd papur i aelodau'r Bwrdd ar 20 Mai yn gofyn am gymeradwyo dyfarniad cyflog o 5% (3.7% yn gyfunol a 1.7% yn anghyfunol) i'r Prif Weithredwr, wedi'i ôl-ddyddio i 1 Ebrill 2024, yn unol â'r dyfarniad cyflog a roddwyd i'r holl weithwyr eraill ym mlwyddyn ariannol 2024/25.<br><br>Cytunodd aelodau'r Bwrdd yn unfrydol ar y cynnig drwy e-bost a nodwyd y penderfyniad yn ffurfiol.<br><br>**Adroddiad Cyllid Chwarter 4**<br>Cafodd yr holl gyllid a roddwyd i Adnodd gan Lywodraeth Cymru ei dynnu i lawr yn ystod y flwyddyn ariannol.<br><br>Oherwydd bod y ffi archwilio allanol yn fwy na'r amcangyfrif blaenorol, mae cyfanswm y gwariant craidd £27,326 yn fwy na'r cyllid grant craidd ym mlwyddyn ariannol 2024/25. Serch hynny, mae cyllid ychwanegol o £24,504 o'r grantiau Llythrennedd ac Ymchwil a gafwyd yn ystod y flwyddyn wedi'u gosod yn erbyn y balans hwn. Mae hyn wedi arwain at orwariant o £2,822 ar ddiwedd y flwyddyn. | the award made to all other employees for 2024/25 financial year.<br><br>Board members unanimously agreed to the proposal via email and the decision was formally noted.<br><br>**Q4 Finance Report**<br>All funding awarded to Adnodd by Welsh Government was drawn down in the financial year.<br><br>Due to the external audit fee being greater than previously estimated, the total core expenditure for the 2024/25 financial year exceeds the core grant funding by £27,326. However, surplus funding of £24,504 from the Literacy and Research grants received during the year has been offset against this balance. This has resulted in overspend of £2,822 at the year end.<br><br>The underspend from the Literacy fund has been committed in 2025/26 to elements of the projects that could not be completed by 31 March 2025. The underspend from the research funding has been committed in 2025/26 to fund the production and launch of the report and the associated marketing activity. The 2025/26 core budget has been adjusted to account for the overspend in 2024/25. |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae'r tanwariant o'r gronfa Llythrennedd wedi'i ymrwymo yn 2025/26 i elfennau o'r prosiectau na ellid eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2025. Mae'r tanwariant o'r cyllid Ymchwil wedi'i ymrwymo yn 2025/26 i ariannu'r gwaith o lunio a lansio'r adroddiad a'r gwaith marchnata cysylltiedig. Mae cyllideb graidd 2025/26 wedi'i haddasu i roi ystyriaeth i'r gorwariant yn 2024/25.<br><br>**Archwilio mewnol**<br>Dywedodd KD fod archwiliad mewnol o'r trefniadau llywodraethu a rheoli risgiau wedi'i gwblhau yn chwarter un.<br><br>Canfu'r archwiliad y cryfderau hyn:<br>• Dull gweithredu clir ar gyfer y Bwrdd ac ARAC, gan gynnwys yr aelodaeth, dosbarthu papurau mewn da bryd cyn cyfarfodydd, rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n dda<br>• Llwybr clir i gyflawni camau gweithredu, a hynny wedi dod i'r amlwg fel rhan o holiadur effeithiolrwydd y Pwyllgor a gynhaliwyd ym mis Ionawr<br>• Proses gadarn ar gyfer drafftio a chymeradwyo polisïau a chanllawiau | **Internal audit**<br>KD reported that an internal audit of governance arrangements and risk management had been completed in quarter one.<br><br>The audit identified the following strengths:<br>• A clear mode of operation for the Board and ARAC including membership, timing of circulation of papers in advance of meetings, well-defined roles and responsibilities<br>• A clear path to implement actions identified as part of the Committee effectiveness questionnaire held in January<br>• A robust process for drafting and approving policies and guidance<br><br>The findings identified by the internal audit were all classified as 'requires merit' observations, and an action plan has been established, which will be reviewed by ARAC at every meeting.<br><br>**External audit**<br>During the ARAC meeting on 25 June, Audit Wales noted that, as this is Adnodd's first external audit, there are high levels of risk and uncertainty which will be mitigated by additional testing. This is highlighted in the audit fee, which is higher than the initial estimate. |

| | | |
|---|---|---|
| | Cafodd canfyddiadau'r archwiliad mewnol i gyd eu disgrifio fel rhai a oedd 'angen sylw', ac mae cynllun gweithredu wedi'i greu a fydd yn cael ei adolygu gan ARAC ym mhob cyfarfod.<br><br>**Archwilio allanol**<br>Yn ystod cyfarfod ARAC ar 25 Mehefin, dywedodd Archwilio Cymru fod lefelau uchel o risg ac ansicrwydd, gan mai dyma archwiliad allanol cyntaf Adnodd, ond y bydd profion ychwanegol yn lliniaru hynny. Mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y ffi archwilio, sy'n uwch na'r amcangyfrif cychwynnol.<br><br>Dywedodd KD fod datganiadau ariannol drafft 2024/25 a'r adroddiad am daliadau wedi'u cyflwyno i Archwilio Cymru. Bydd naratif yr adroddiad blynyddol yn cael ei ychwanegu at y ddogfen a'i gyflwyno erbyn 1 Awst.<br><br>Mae disgwyl i Archwilio Cymru gyflwyno'r adroddiad archwilio a'r cyfrifon i ARAC ym mis Hydref 2025.<br><br>**Olyniaeth ar y Bwrdd**<br>Dywedodd KD fod yr Uned Cyrff Cyhoeddus wedi cadarnhau bod fframwaith llywodraethu Adnodd yn | KD noted that the 2024/25 draft financial statements and the remuneration report have been issued to Audit Wales. The annual report narrative will be added to the document and submitted by 1 August.<br><br>Audit Wales are due to provide the audit and account report to ARAC in October 2025.<br><br>**Board succession**<br>KD reported that the PBU have confirmed that Adnodd's governance framework permits extensions to all current Board member terms.<br><br>Ministerial approval will now be sought via the Partnership Team for the extensions. |

| | | |
|---|---|---|
| | caniatáu ymestyn cyfnodau holl aelodau presennol y Bwrdd.<br><br>Y cam nesaf yw gofyn am gymeradwyaeth y Gweinidog i ymestyn y cyfnodau, a hynny drwy'r Tîm Partneriaeth. | |
| 9. Cylch Gorchwyl y Bwrdd<br><br>Board Terms of Reference | Cyfeiriodd KD at y diwygiadau a wnaed i'r ddogfen, a oedd yn cynnwys cael gwared ar gyfeiriadau at ddau bwyllgor, ac ymgorffori dirprwyaethau'r pwyllgor adnoddau dynol a chyllid yn nirprwyaethau ARAC.<br><br>***Penderfyniad: Cytunodd y Bwrdd ar y diwygiadau a awgrymwyd i'r ddogfen.***<br><br>**Cam gweithredu: Cylchredeg y ddogfen derfynol ymhlith aelodau'r Bwrdd.** | KD highlighted the amendments made to the document, which included removing references to two committees, and incorporating the delegations of the Human resource and finance committee into ARAC's delegations.<br><br>***Decision: The Board agreed with the suggested amendments to the document.***<br><br>**Action: Circulate the final document to Board members.** |
| 10. Cyllideb 2025-26 a chynllunio<br><br>2025-26 budget and planning | Dywedodd KD fod llythyr ariannu 2025-26 wedi dod i law ar 14 Ebrill, gyda chyfanswm y dyraniad cyllid yn £4,502,000.<br><br>Ar 30 Mai, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg gymorth tuag at gostau yswiriant gwladol uwch gan Lywodraeth Cymru i gyflogwyr y sector cyhoeddus sydd wedi'u datganoli. Ar sail y wybodaeth a | KD noted that the funding letter for 2025-26 was received on 14 April, with a total funding allocation of £4,502,000.<br><br>On 30 May, the Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language announced WG support to devolved public sector employers with increased national insurance costs. Based on the information shared, Adnodd can |

| | | |
|---|---|---|
| | rannwyd, gall Adnodd ddisgwyl cael dyfarniad gwerth rhwng £9,000 a £15,000 ym mlwyddyn ariannol 25/26.<br><br>Mae achos busnes wedi'i gyflwyno ar gyfer yr ail don o adnoddau TGAU.<br><br>Dangosodd y gyllideb ddrafft a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Ebrill danwariant o £27,000. Mae'r tanwariant hwn bellach wedi'i gyfrifyddu yn y gyllideb ddrafft derfynol. Dangosir gorwariant bach o £986 yn y costau gweithredol.<br><br>Soniodd KD am ddiwygiadau i'r tab gweithredol o dan y penawdau canlynol:<br><br>• Costau staffio<br>• Dyfarniad cyflog wedi'i ôl-ddyddio i'r Prif Weithredwr<br>• Costau llogi lleoliadau, cyfarfodydd a rhannu mannau gwaith<br><br>**Gwariant ar brosiectau a chomisiynu**<br>Dywedodd KD mai cyfanswm y cyllid grant a ddyrannwyd i wariant ar gomisiynu yw £2,976,000. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno nifer o ofynion yn y | expect to receive an award of between £9,000 and £15,000 for the 25/26 financial year.<br><br>A business case has been submitted for GCSE wave 2 resources.<br><br>The draft budget presented to the Board in April showed an underspend of £27,000. The underspend has now been accounted for in the final draft budget. A small overspend of £986 is shown within in the operational costs.<br><br>KD noted the following amendments to the operational tab under the following headings:<br><br>• Staffing costs<br>• Backdated pay award for Chief Executive<br>• Venue hire, meeting costs & co-working<br><br>**Commissioning and project spend**<br>KD noted that the grant funding allocated to commissioning spend totals £2,976,000. WG officials have identified a number of requirements within the Funding Letter, all of which have now been accounted for within the commissioning budget. |

| | | |
|---|---|---|
| | Llythyr Ariannu, ac mae'r rhain i gyd wedi'u cyfrifyddu bellach yn y gyllideb gomisiynu.<br><br>Mae'r gyllideb gomisiynu derfynol yn dangos tanwariant bach o £4,000 a gellir neilltuo hwn i brosiect arall yn ddiweddarach yn y flwyddyn os bydd hynny'n angenrheidiol.<br><br>***Penderfyniad: Cymeradwyodd y Bwrdd gyllideb 2025-26.***<br><br>**Cam gweithredu: Gwneud ymholiadau ynghylch a oes cyllid cyfalaf ar gael gan Lywodraeth Cymru i dalu'r costau ychwanegol sy'n angenrheidiol i roi dyfeisiau TG i aelodau'r Bwrdd.** | The final commissioning budget shows a small underspend of £4,000 which can be allocated to another project later in the year if necessary.<br><br>***Decision: The Board approved the 2025-26 budget.***<br><br>**Action: Enquire whether capital funding is available from WG to fund the additional spending required to equip Board members with IT devices.** |
| 11. Y gofrestr risgiau<br><br>Risk register | Roedd yr aelodau wedi cael cais i gyflwyno cwestiynau am risgiau penodol i'r Cadeirydd cyn y cyfarfod.<br><br>Gan gyfeirio at ymholiad a ddaeth i law am y gwariant uchel a nodwyd ym mis Mawrth 2026, cadarnhaodd KD y byddai diweddariad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Hydref, ac erbyn hynny byddai'r contractau a'r cerrig milltir wedi'u creu, gan roi ffigurau cywirach. | Members had been asked to submit questions regarding specific risks to the Chair in advance of the meeting.<br><br>Referring to a query raised regarding the high expenditure noted in March 2026, KD confirmed that an update would be brought to Board in October, by which time the contracts will be in place and milestones agreed, providing more accurate figures. |

| | | |
|---|---|---|
| | Gan gyfeirio at eiriad penodol rhai risgiau, dywedodd KD fod Helen Morris o dîm Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru wedi cynnig helpu'r tîm gweithredol i fireinio'r gofrestr risgiau wrth i honno aeddfedu.<br><br>**Cam gweithredu: Cynnwys risg ynghylch y llythyr cylch gwaith, a sut y bydd ein cylch gwaith yn cael ei ymestyn yn ystod blwyddyn yr etholiad.**<br><br>***Penderfyniad: Cytunodd y Bwrdd ar yr adolygiad blynyddol o'r gofrestr risgiau.*** | Referring to specific wording of some risks, KD reported that Helen Morris from WG's Internal Audit team had offered to support the executive team to refine the risk register as it matures.<br><br>**Action: To include a risk regarding the remit letter, and how our remit will be extended during the election year.**<br><br>***Decision: The Board agreed the annual review of the risk register.*** |
| 12. Yr adroddiad blynyddol<br><br>Annual report | Aeth ARAC ati i adolygu'r drafftiau o'r datganiadau ariannol a'r adroddiad am daliadau yn ystod y cyfarfod ar 25 Mehefin.<br><br>Bydd Adroddiad Blynyddol blwyddyn ariannol 2024/25 yn cynnwys y dogfennau canlynol ochr yn ochr â'r adroddiad am daliadau a'r datganiadau ariannol:<br>• Adroddiad strategol<br>• Datganiad am lywodraethu<br>• Adroddiad y cyfarwyddwyr<br><br>***Penderfyniad: Cymeradwyodd y Bwrdd y dogfennau a fydd yn cael eu cyflwyno fel rhan o'r adroddiad blynyddol i Archwilio Cymru erbyn 1 Awst 2025.*** | The draft financial statements and renumeration report were reviewed by ARAC during the meeting on 25 June.<br><br>The Annual report for the 2024/25 financial year will comprise the following documents alongside the remuneration report and financial statements:<br>• Strategic report<br>• Governance statement<br>• Directors' report<br><br>***Decision: The Board approved the documents to be submitted as part of the annual report to Audit Wales by 1 August 2025.*** |

| | | |
|---|---|---|
| 13. Y cynllun gweithredol<br><br>Operational plan | Esboniodd EG fod y cynllun wedi'i strwythuro yn unol â'r llythyr cylch gwaith, gyda phum tab yn cynrychioli blaenoriaethau strategol Adnodd. O dan bob tab, ceir nifer o amcanion, a'r rheiny'n gysylltiedig â chyflawni elfennau o'r llythyr ariannu a/neu'r Strategaeth yn llwyddiannus.<br><br>Bydd diweddariad am y cynllun gweithredol yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mhob cyfarfod drwy adroddiad am eithriadau. Bydd yr adroddiad am eithriadau'n amlygu'n fanwl unrhyw amcanion sydd wedi cael sgôr coch gan y tîm. Bydd yr holl eitemau ambr yn cael eu nodi yn yr adroddiad, ond heb gael eu disgrifio'n fanwl oni bai y bydd y Bwrdd yn gwneud cais penodol am hynny. Ni fydd yr eitemau gwyrdd yn cael eu nodi yn yr adroddiad.<br><br>***Penderfyniad: Cytunodd y Bwrdd ar yr amserlen a awgrymwyd ar gyfer paratoi a chymeradwyo cynlluniau'r dyfodol.***<br><br>**Cam gweithredu: Ystyried y ffordd orau o adlewyrchu saith egwyddor a phum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a phedwar** | EG explained that the plan has been structured according to the remit letter, with five tabs representing Adnodd's strategic priorities. Under each tab there are a number of objectives, relating to the successful delivery of elements of the funding letter and/or Strategy.<br><br>An update on the operational plan will be presented to the Board at every meeting via an exception report. The exception report will highlight any objectives that have been rated red by the team in detail. All items rated amber will be noted in the report but not described in detail unless specifically requested by the Board. All items in green will not be noted in the report.<br><br>***Decision: The Board agreed to the suggested timetable for the preparation and approval of future plans.***<br><br>**Action: Consider how best to reflect the seven principles and five ways of working (Well-being of Future Generations (Wales) Act and the four purposes of the Curriculum for Wales into Adnodd's operational plan.** |

| | | |
|---|---|---|
| | **diben y Cwricwlwm i Gymru yng Nghynllun Gweithredol Adnodd.**<br><br>**Cam gweithredu: Cynnwys unrhyw newidiadau o bwys i'r cynllun gweithredol fel adroddiad am reoli newid yn ystod diweddariadau i'r Bwrdd.** | **Action: To include any significant changes to the operational plan as a change management report during Board updates.** |
| 14. Ymholiadau archwilio 2024-25<br><br>2024-25 Audit enquiries | Esboniodd EG fod y rhain yn gyfres o gwestiynau safonol gan yr Archwilwyr Allanol. Mae KD wedi drafftio atebion ar ran y tîm gweithredol, ac mae MG wedi gwneud hynny ar ran y Bwrdd, a bydd y rhain yn cael eu cyflwyno gyda'r adroddiad blynyddol.<br><br>***Penderfyniad: Cymeradwywyd yr ymatebion a roddwyd ar ran y Bwrdd.*** | EG explained that these are a series of standardised questions from the External Auditors. Reponses have been drafted by KD on behalf of the executive team and MG on behalf of the Board and will be submitted with the annual report.<br><br>***Decision: The responses provided on behalf of the Board were approved.*** |
| 15. Unrhyw fusnes arall<br><br>Any other business | **Dyddiadau cyfarfodydd nesaf**<br><br>• 22/10/25, 14:30-17:30<br>• 28/01/26 - Teams<br><br>**Cam gweithredu: Trefnu trafodaeth ehangach yn y Bwrdd am y risgiau, y cyfleoedd a'r heriau i ysgolion ac ymarferwyr yn sgil y Cwricwlwm i Gymru.**<br><br>**Cam gweithredu: Cylchredeg rhaglen o gynadleddau yn nhymor yr hydref.** | **Next meeting dates**<br><br>• 22/10/25, 14:30-17:30<br>• 28/01/26 - Teams<br><br>**Action: To schedule a wider discussion at Board regarding the risks, the opportunities and challenges of the Curriculum for Wales for schools and practitioners.**<br><br>**Action: To circulate a programme of conferences in the autumn term.** |

Rhif cwmni / company number: 14227941

adnodd
yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru
supporting the Curriculum for Wales